# CWMPAS 5 2018

# Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig




## 1 Cefndir

Roedd Oedolyn M yn 22 oed pan gymerodd ei bywyd ei hun ym mis Ionawr 2016. Roedd hi'n ddysgwr preswyl trydedd flwyddyn mewn coleg yn Lloegr, wedi'i hariannu drwy leoliad addysg bellach Llywodraeth Cymru.

Roedd Oedolyn M wedi cael diagnosis o syndrom Asperger, clefyd Raynaud a salwch yn ymwneud ag iselder, ac roedd mewn perygl o hunan-niweidio a hunanladdiad. Roedd ganddi weithiwr cymdeithasol dynodedig o'r Tîm Anableddau Oedolion ac roedd o dan ofal seiciatrydd ymgynghorol yn ei sir enedigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

## 2 Cvd-destun

Yn dilyn marwolaeth drasig Oedolyn M, gwnaeth ei theulu gwynion ffurfiol yn erbyn y coleg preswyl, yr awdurdod lleol, a dau bwrdd iechyd a oedd yn ymwneud â gofal Oedolyn M. Atgyfeiriwyd un o'r cwynion hyn at Ombwdsmon Cymru. Gyda'i gilydd, nododd yr ymchwiliadau hyn wersi i'w dysgu, yn enwedig o ran rhannu gwybodaeth yn ymwneud â digwyddiadau blaenorol o hunan-niweidio a syniadaeth hunanladdol, yn ogystal ag asesiadau risg nad oeddent yn cael eu diweddaru yng ngoleuni'r ffaith bod iechyd meddwl Oedolyn M yn dirywio. Rhaid nodi, fodd bynnag, nad oedd unrhyw beth a nodwyd yn yr adolygiad yn awgrymu y byddai camau eraill wedi atal marwolaeth Oedolyn M.

## 3 Themâu Allweddol: Deall yr Unigolyn

Roedd nifer o'r heriau a brofodd Oedolyn M mewn perthynas â'i hiechyd meddwl yn amlygiadau tebygol o'i syndrom Asperger, ond ni chawsant eu nodi felly. Nododd yr adolygiad felly fod angen dealltwriaeth fwy cyfannol o anghenion oedolion awtistig. Mewn perthynas â pherygl o hunanladdiad, nodwyd yn flaenorol bod Oedolyn M mewn perygl o ganlyniad i hunan-niwed. Fodd bynnag, yn y tymor cyn ei marwolaeth, mynegodd Oedolyn M syniadaeth hunanladdol. Dylai'r newid hwn fod wedi arwain at asesiad risg a ddiweddarwyd. Nodwyd bod enghraifft o gam-drin rhwng cymheiriaid yn cynnwys ffrind Oedolyn M wedi effeithio'n sylweddol ar lesiant emosiynol Oedolyn M. Ni hysbyswyd ei rhieni o hyn, er gwaethaf yr effaith ar Oedolyn M.

## 4 Themâu Allweddol: Pontio

Roedd mam Oedolyn M yn eiriolwr rhagweithiol a chefnogol i Oedolyn M, a chroesawodd y cymorth hwn. Fodd bynnag, dylai cynllunio o ran pontio fod wedi digwydd gydag Oedolyn M a'i rhieni cyn iddi droi'n 18, er mwyn cyfathrebu sut y byddai angen i wasanaethau ymgysylltu'n wahanol ag Oedolyn M fel oedolyn.

Diffyg penodol a nodwyd oedd bod y seiciatrydd wedi cytuno ar newidiadau sylweddol o ran meddyginiaeth heb i Oedolyn M fod yn bresennol. Ymdriniwyd â'r maes hwn yn yr ymchwiliadau a gynhaliwyd ac yn adroddiad yr Ombwdsmon.

## 5 Themâu Allweddol: Rhannu a Chofnodi Gwybodaeth

Er bod yr adolygiad wedi nodi arfer da o ran gweithio amlasiantaeth, nodwyd achosion lle y dylid bod wedi cael mewnbwn yn ymwneud ag iechyd i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Yn benodol, dylai'r dirywiad yn iechyd meddwl Oedolyn M fod wedi sbarduno trafodaeth amlasiantaeth a oedd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol.

Archwiliodd yr adolygiad hefyd y rhannu gwybodaeth rhwng y gweithiwr cymdeithasol a'r coleg mewn perthynas â'r syniadiaeth hunanladdol a fynegwyd gan Oedolyn M. Yn anffodus, ni chofnodwyd manylion y drafodaeth hon a'r camau dilynol wedi hynny yn gynhwysfawr.

## 6 Arfer Da

- Diwallwyd anghenion addysgol Oedolyn M yn dda. Cafodd gefnogaeth i fynychu'r coleg o'i dewis trwy leoliad a ariannwyd. Rhagorodd Oedolyn M yn academaidd, yn ogystal â datblygu sgiliau o ran bod yn annibynnol a meithrin perthnasoedd â'i chyfoedion.
- Nodwyd risg o hunanladdiad yn yr asesiad risg cychwynnol a nodwyd yn briodol ei bod yn ymwneud â hunan-niwed.
- Roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu cynnig fel mater o drefn i Oedolyn M.
- Roedd parhad o ran gofal yn amlwg mewn perthynas ag ymarferwyr.
- Roedd y llinell amser yn nodi enghreifftiau o arfer da, sef achosion o lais Oedolyn M yn cael ei glywed ac yn llywio ei gofal.

## 7 Dysgu a Chamau Gweithredu

- Rhoi'r strategaeth awtistiaeth genedlaethol a'r cod ymarfer ar waith.
- Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu gofal iechyd meddwl mewn perthynas â phobl sy'n byw dros dro y tu allan i'r ardal.
- I'r gwasanaethau addysg weithredu'r Cod ADY.
- Parhau i roi cynlluniau gweithredu atal hunanladdiad ar waith.
- Cyfathrebu cadarn i ddigwydd gyda rhieni cyn y cyfnod pontio.
- Polisïau rhannu gwybodaeth a hyfforddiant i adlewyrchu'r angen i gyfathrebu'n effeithiol mewn perthynas â rhoi'r wybodaeth ar waith.
- Colegau addysg bellach i weithredu argymhellion mewn perthynas â cham-drin rhwng cymheiriaid a amlygwyd yn adroddiad thematig Estyn.
- Codi'r mater a nodwyd ynghylch lleoliadau ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar lefel genedlaethol.